# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd*

## 2 Rhaglen arolygiadau hylendid bwyd

(1) Rhaid i awdurdod bwyd lunio, ac adolygu, rhaglen sy'n pennu—

(a) a oes rhaid i sefydliad busnes bwyd yn ei ardal gael ei arolygu, a

(b) os oes angen arolygiad, mynychder yr arolygiadau.

(2) Rhaid i awdurdod bwyd arolygu sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.

(3) Wrth lunio ac adolygu ei raglen, rhaid i awdurdod bwyd roi sylw i faterion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r materion a bennir gan yr ASB gynnwys asesiad o'r risg i iechyd y cyhoedd—

(a) sy'n gysylltiedig â'r math o fwyd a drafodir gan sefydliad,

(b) sy'n gysylltiedig â'r dull o drafod y bwyd, ac

(c) sy'n codi o record y sefydliad o gydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd.

(5) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yr ardal yng Nghymru lle y mae'r sefydliad (neu awdurdod iechyd porthladd o dan yr amgylchiadau a ragnodir gan adran 5(3) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990);

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") sefydliad busnes bwyd yw person sy'n ymwneud â rheoli'r sefydliad;

ystyr "sefydliad busnes bwyd" ("*food business establishment*") yw unrhyw uned o fusnes sydd wedi ei gofrestru gydag awdurdod bwyd drwy rinwedd Erthygl 6 o Reoliad (EC) Rhif 852/2004 neu sydd wedi ei gymeradwyo o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 (neu sydd wedi ei gofrestru neu ei

gymeradwyo o dan ddarpariaethau cyfatebol yn lle hynny ar gyfer cofrestru neu cymeradwyo sefydliadau busnes bwyd) ac—

(a) sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, neu

(b) sy'n cyflenwi bwyd i fusnes arall.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) diwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys ehangu'r categori o sefydliad a fydd yn ddarostyngedig i raglen arolygiadau;

(b) diwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd (er enghraifft, i gynnwys cyrff eraill).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 2(1)-(4)(6) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(b)**

**I3** A. 2(5) mewn grym ar 28.11.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(b)**

**I4** A. 2(5) mewn grym ar 28.11.2014 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2014/3089, **ergl. 2**

## 3 Sgoriau hylendid bwyd

(1) Pan fo sefydliad busnes bwyd wedi ei arolygu yn unol ag adran 2, rhaid i awdurdod bwyd asesu safonau hylendid bwyd y sefydliad a chynhyrchu sgôr ("sgôr hylendid bwyd") ar gyfer y sefydliad hwnnw sydd wedi ei sgorio yn erbyn meini prawf a osodir gan yr ASB (y "meini prawf sgorio").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu bod sgôr hylendid bwyd i'w seilio ar asesiad o safonau hylendid bwyd sefydliad a wnaed cyn i'r Ddeddf hon gael ei chychwyn.

(3) Cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl arolygiad , rhaid i awdurdod bwyd anfon at weithredwr y sefydliad—

(a) hysbysiad ysgrifenedig am sgôr hylendid bwyd y sefydliad;

(b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;

(c) sticer sgôr hylendid bwyd ar ffurf a ragnodir;

(d) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.

(4) Mae sgôr hylendid bwyd yn peidio â bod yn ddilys yn yr achosion a ganlyn—

(a) pan fo gweithredwr sefydliad wedi cael hysbysiad am sgôr hylendid bwyd newydd a—

(i) bod y cyfnod o 21 o ddiwrnodau ar gyfer apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd newydd wedi dirwyn i ben, neu

(ii) os oes apêl wedi ei gwneud, bod yr apêl wedi ei phenderfynu a bod y gweithredwr wedi cael hysbysiad am y canlyniad;

(b) pan fo perchenogaeth ar sefydliad wedi ei throsglwyddo neu fod y sefydliad wedi peidio â masnachu.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi bod categorïau penodol o sefydliad yn cael bod yn esempt rhag cael eu sgorio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I6** A. 3(1)(3)(a)(b)(4) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(c)**
**I7** A. 3(2)(3)(c)(d)(5) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(a)**
**I8** A. 3(2)(3)(c)(d)(5) mewn grym ar 28.11.2013 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(c)**

## 4 Y meini prawf sgorio

(1) Rhaid i'r meini prawf sgorio gynnwys system i sgorio safonau hylendid sefydliad busnes bwyd.

(2) Rhaid i'r system sgorio gynnwys darpariaethau sydd wedi eu seilio ar yr agweddau canlynol ar y sefydliad—

(a) ei arferion trin bwyd (gan gynnwys rheoli tymheredd);
(b) ei amgylchedd ffisegol (gan gynnwys ei gynllun, ei lendid a'i gyflwr);
(c) ei reolaeth;
(d) ei weithdrefnau ar gyfer cadw trefn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**
**I10** A. 4 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd.